**PWYLLGOR ARCHWILIO AC-04-02(cof)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 16 Mai 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Tystion** | |
| | Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol |
| | David Richards | Prif Swyddog Cyllid |
| | Emyr Roberts | Pennaeth Yr Is-Adran Polisi Economaidd |
| | Keith Parsons | Yr Is-Adran Polisi Economaidd |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| Frank Grogan | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Lew Hughes | Swyddfa’r Archwilydd Cyffredinol |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad |
| | |
| Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1**

**Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Parhau â’r Gwaith o Adfywio Bae Caerdydd**

Papur: AC-04-02(p1)

1. Dechreuodd y cyfarfod am 2.13pm gan fod y pwyllgor wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o ran gyntaf y cyfarfod dan Reol Sefydlog 8.21(vi), '*Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod: (vi) lle mae’r pwyllgor yn ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson'*.

   1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eleanor Burnham.

   1.3 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jon Shortridge, David Richards, Emyr Roberts a Keith Parsons mewn perthynas â’r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Barhau â’r Gwaith o Adfywio Bae Caerdydd.*

   1.4 Atodir copi o drawsgrifiad gair am air o’r eitem hon i’r cofnodion hyn.

**Eitem 2**

**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Papur: AC-03-02(cof)

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3**

**Papurau i’w nodi**

Papurau: AC 04-02(p2) (p3) (p4) (p5) and (p11)

1. Nododd y pwyllgor y papurau canlynol:

- Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dyddiedig 18 Ebrill 2002 parthed materion digartrefedd.
- Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dyddiedig 29 Ebrill 2002 parthed ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor ar Grynodeb o Gyfrifon y GIG 1999-2000.
- Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol dyddiedig 7 Mai 2002 parthed Swyddogion Cyfrifo Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.
- Nodyn ar y prif welliannau sydd eu hangen yn erbyn y strategaeth TG y gofynnwyd amdano yn sesiwn tystiolaeth y Pwyllgor Archwilio ar Reolaeth Ystad y GIG yng Nghymru ar 24 Ionawr 2002.
- Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rhaglen Derfynol Gwaith Gwerth am Arian ar gyfer 2002-2003.

**Eitem 4**

**Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio – Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol**

Papurau: AC-04-02(p.6) (p7) (p8) (p9) (p10) and (p12)

1. Tynnodd y Cadeirydd yn ôl yn wirfoddol o ystyriaeth y pwyllgor o'r adroddiad drafft gan y bu ei wraig yn aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru ac ni fu ef yn ymwneud â'r sesiynau cymryd tystiolaeth mewn perthynas â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol.
2. Datganodd Janice Gregory fod un o'r tystion a gyflwynodd dystiolaeth mewn perthynas â'r adroddiad drafft yn un o'i hetholwyr.
3. Etholodd y pwyllgor Janet Davies fel ei Gadeirydd dros dro dan Reol Sefydlog 12.9, *'Os yw'r cadeirydd wedi'i anghymhwyso rhag cymryd rhan yn ystyriaeth y Pwyllgor ar unrhyw fater o dan y rheolau sefydlog neu'n tynnu'n ôl o ystyriaeth o'r fath yn wirfoddol, bydd y Pwyllgor yn ethol aelod arall i'w gadeirio pryd bynnag y bydd y mater hwnnw'n cael ei ystyried'.*
4. Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod pan ystyriwyd yr adroddiad drafft yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi), '*Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod: (vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi'.*
5. Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad drafft

   Daeth y cyfarfod i ben am 4.58pm.